# Canllawiau

## Ymadael â'r UE: paratoadau dim cytundeb ar gyfer ysgolion Cymru

Cyhoeddwyd 5 Ebrill 2019

## Cynnwys


Cefndir

Ceisiadau am statws preswylydd sefydlog ar gyfer gwladolion yr UE/AEE a'r Swistir

Llefydd Ysgolion

Paratoadau fel cyflogwr, gan gynnwys cydnabyddiaeth i gymwysterau addysgu ar gyfer gwladolion yr AEE a'r Swistir

Gwirio am gyfyngiadau neu sancsiynau ar athrawon gan awdurdod rheoleiddio'r AEE

Teithio i'r UE

Diogelu data

Cyflenwad Bwyd

Erasmus+

## Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn glir i Lywodraeth y Deyrnas Unedig y byddai gadael yr UE heb gytundeb yn cael effaith negyddol ar Gymru. Fodd bynnag, rydym yn cynllunio ar gyfer popeth a allai ddigwydd, gan gynnwys sefyllfa lle nad oes cytundeb.

Yn y canllawiau hyn, fe welwch wybodaeth sy'n berthnasol i ysgolion yng Nghymru a phobl sy'n gweithio yn ein hysgolion. Mae'n cynnwys gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Mae Llywodraeth y DU wedi lansio ymgyrch wybodaeth gyhoeddus  i sicrhau bod Dinasyddion y DU, busnesau, Dinasyddion yr UE sy'n byw yn y DU a Dinasyddion y DU sy'n byw yn yr UE yn cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt am ymadawiad y DU â'r UE, sut y bydd hynny'n effeithio arnynt, a'r camau y bydd angen iddynt eu cymryd i fod yn barod. Mae peth o'r wybodaeth yn berthnasol i'r sefyllfa gyda chytundeb a sefyllfa dim cytundeb.

## Ceisiadau am statws preswylydd sefydlog ar gyfer gwladolion yr UE/AEE a'r Swistir

Mewn sefyllfa dim cytundeb, bydd gwladolion yr UE, yr AEE a'r Swistir[1] ac aelodau eu teulu sy'n preswylio yn y DU ond nad ydynt yn wladolion y DU yn gallu parhau i breswylio, gweithio, astudio a chael mynediad at fudd-daliadau a gwasanaethau yn y DU, ar yr un telerau, fwy neu lai, â'r sefyllfa gyfredol.

Mae gwybodaeth am wneud cais ar gyfer hyn ar gael ar gov.uk. Mae pecyn cymorth ar gyfer cyflogwyr a manylion y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE hefyd ar wefan gov.uk.

## Llefydd Ysgolion

Gall unrhyw blentyn sy'n preswylio yn y DU wneud cais am le a chael lle mewn ysgol yng Nghymru waeth beth fo'i statws ymfudo. Bydd hynny'n parhau ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r UE.

Yng Nghymru, nid yw'r prosesau ar gyfer derbyniadau i ysgolion yn cymryd statws mewnfudo na chenedligrwydd i ystyriaeth, ac felly rhaid i ysgolion beidio â gwrthod lle i blentyn ar sail ei genedligrwydd neu ei statws ymfudo. Ceir canllawiau ar y prosesau ar gyfer derbyniadau yn y Cod Statudol ar Dderbyniadau i Ysgolion. Ar hyn o bryd, gall gwladolion yr UE, AEE EFTA (EFTA yw Cymdeithas Masnach Rydd Ewrop), a'r Swistir gael addysg mewn ysgolion yng Nghymru.

Pe byddai'r DU yn gadael yr UE heb gytundeb, byddai gwladolion yr UE, AEE EFTA a'r Swistir sy'n byw yn y DU yn gallu aros yn y wlad a chael mynediad at fudd-daliadau a gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys addysg, ar yr un telerau, fwy neu lai, ag sy'n digwydd nawr. O dderbyn rhai budd-daliadau penodol, efallai y bydd teuluoedd hefyd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim hefyd. Fodd bynnag, byddai angen iddynt wneud cais i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE erbyn 31 Rhagfyr 2020 er mwyn aros tu hwnt i'r dyddiad hwnnw. Mae

Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi trefniadau ar gyfer dinasyddion yr UE os bydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb ac ar gyfer gwladolion AEE EFTA a'r Swistir hefyd.

Bydd hawl gwladolion Iwerddon i gael addysg yn y DU yn parhau i gael ei diogelu o dan drefniadau'r Ardal Deithio Gyffredin.

Gall pobl sydd â'r hawl i breswylio yn y DU wneud cais o dramor am le mewn ysgol, ond mae'n bosibl y bydd angen i'r ymgeisydd ddarparu prawf o breswylfa yn y DU i awdurdodau derbyn ac awdurdodau lleol, fel bod yr ysgolion yn gallu gweithredu eu trefniadau derbyn.  Dylai gwladolion y DU sy'n dychwelyd o'r UE gael eu hystyried ar gyfer cael eu derbyn i ysgol yn yr un modd â phobl sy'n byw yn y DU. Bydd gan wladolion y DU sy'n dychwelyd o'r UE ar ôl i'r DU ymadael â'r UE hawl gyfreithiol i fanteisio ar wasanaethau yn yr un modd ag y maent ar hyn o bryd.

## Paratoadau fel cyflogwr, gan gynnwys cydnabyddiaeth i gymwysterau addysgu ar gyfer gwladolion yr AEE a'r Swistir

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi cyngor i gyflogwyr ar y goblygiadau posibl yn sgil dim cytundeb a'r camau y gellir eu cymryd i baratoi. Mae'n ymdrin â materion megis hawliau yn y gweithle a darpariaethau diogelu gweithwyr a ddaw o gyfraith yr UE. Darllenwch ganllawiau ar hawliau yn y gweithle mewn achos o ddim cytundeb.

## Cydnabyddiaeth i gymwysterau dysgu

Ar hyn o bryd, mae gan athrawon cymwys o'r UE, AEE EFTA a'r Swistir yr hawl i gael eu statws proffesiynol a'u cymwysterau wedi'u hystyried ar gyfer dyfarnu Statws Athro Cymwys yng  Nghymru. Bydd ymarferwyr o'r UE, AEE EFTA a'r Swistir y mae eu cymwysterau wedi'u cydnabod cyn y dyddiad ymadael, neu sydd wedi ymgeisio am benderfyniad ar gydnabyddiaeth cyn y dyddiad ymadael, yn cadw'r hawl os bydd y DU yn ymadael heb gytundeb. Ni fydd newid i bobl sydd eisoes wedi cael eu statws proffesiynol a'u cymwysterau o'r UE, AEE EFTA a'r Swistir wedi'u cydnabod a'u dilysu ac wedi cael Statws Athro Cymwys yng Nghymru.

Os na fydd cytundeb, ni fydd y system gyfredol o gydnabyddiaeth ddwyochrog at gyfer cymwysterau proffesiynol rhwng y DU a'r UE, AEE EFTA a'r Swistir yn gymwys ar ôl y dyddiad gadael. Nid yw hyn yn effeithio ar bobl y mae eu cymwysterau eisoes wedi'u cydnabod gan y DU neu bobl sydd eisoes wedi gwneud cais am benderfyniad ar gydnabyddiaeth cyn y dyddiad ymadael.

Ar ôl inni adael yr UE, fe sicrhawn y bydd ffordd o hyd i ymarferwyr sydd â chymwysterau o'r UE, yr AEE, EFTA a'r Swistir, gan gynnwys athrawon, geisio cydnabyddiaeth o'u cymwysterau proffesiynol drwy system newydd. Caiff gwybodaeth bellach ei chyhoeddi'n fuan ar GOV.UK.

Nid yw'r trefniadau effaith yn lleihau effaith hawliau a breintiau a roddir, yn rhinwedd yr Ardal Deithio Gyffredin, i ddinasyddion Iwerddon a'r DU pan fyddant yng ngwladwriaethau ei gilydd.

## Gwirio am gyfyngiadau neu sancsiynau ar athrawon gan awdurdod rheoleiddio'r AEE

Os na fydd cytundeb, ni fydd y gofyniad ar awdurdodau rheoleiddio proffesiynol yr AEE i rannu manylion unrhyw sancsiynau neu gyfyngiadau a roddir ar athrawon bellach yn gymwys. Golyga hyn na fydd y trefniadau cyfredol bellach ar gael ar gyfer cael mynediad at fanylion yr athrawon hynny y mae sancsiynau neu gyfyngiadau arnynt yng ngwledydd y AEE. Cyngor y Gweithlu Addysg sydd â chyfrifoldeb am gofrestru athrawon ysgol yng Nghymru a bydd trefniadau ar waith i asesu addasrwydd pawb sydd am gofrestru, a'u cymhwyster i ymarfer.

## Teithio i'r UE

Os na fydd cytundeb ymadael, bydd rhaid ichi wneud pethau'n wahanol cyn teithio i rywle yn yr UE. Mae sawl peth y bydd angen ichi fod yn ymwybodol ohono wrth drefnu taith i'r UE ar gyfer staff neu fyfyrwyr. Gweler y wybodaeth ar Borthol Brexit Llywodraeth y DU.

Gallwch hefyd ddarllen y wybodaeth ar yswiriant teithio a materion trefnidiaeth.

## Diogelu Data

Os bydd y DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb, bydd angen i sefydliadau yn y DU sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio â chyfraith diogelu data. O ran sefydliadau sy'n gweithredu o fewn y DU yn unig, ni fydd unrhyw newid ar unwaith. O ran sefydliadau sy'n gweithredu'n rhyngwladol neu sy'n cyfnewid data personol gyda phartneriaid mewn gwledydd eraill, neu y mae eu data'n cael ei westeia yn yr UE, efallai y bydd angen gwneud newidiadau cyn i'r DU ymadael â'r UE er mwyn sicrhau cyn lleied â phosib o aflonyddwch. Mae'n bwysig ystyried a fyddech yn cael eich effeithio. Ar gyfer y rhai fyddai'n cael eu heffeithio, cynghorir y dylid cymryd camau ar unwaith gan ei bod yn bosib y bydd y newidiadau yn cymryd peth amser i'w rhoi ar waith. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn nodi mewn 6 cham yr hyn y dylai sefydliadau ei wneud i fod yn barod ar gyfer Brexit. Ceir rhagor o wybodaeth ac adnoddau yn ymwneud ag ymadael â'r UE ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac ar GOV.UK.

## Cyflenwad Bwyd

### Argaeledd prydau ysgol

Bydd prydau yn cael eu darparu mewn ysgolion fel arfer.

Mae'r rhan fwyaf o brydau ysgol yn cael eu darparu gan wasanaethau arlwyo awdurdodau lleol - mae'r arwyddion cynnar yn dangos bod cynlluniau yn eu lle i ddygymod ag unrhyw amharu ar y cyflenwad bwyd os bydd Brexit yn digwydd heb gytundeb.

Mae'r cyfrifoldeb am ddarparu prydau ysgol, gan gynnwys prosesau caffael, yn nwylo'r awdurdodai lleol neu gorff llywodraethu'r ysgol os yw'r cyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo.  Mae bwyd mewn ysgolion yn cael ei reoleiddio gan Reoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013.  Mae'r rheoliadau hyn yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i awdurdodau lleol ac ysgolion addasu'r fwydlen i sicrhau y cydymffurfir â'r rheoliadau hyd yn oed os bydd problem gyda'r cyflenwad bwyd.

Mae gan rai ysgolion eu trefniadau arlwyo eu hunain, ac mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda nhw a Llywodraethwyr i asesu unrhyw effaith bosibl ac i ddarparu cyngor a chymorth i sicrhau eu bod yn parhau i ddarparu prydau ysgol.
Rydym yn siarad â Chyngor Ysgolion Annibynnol Cymru ynghylch paratoadau ysgolion annibynnol.

### A fydd plant yn dal i gael llaeth yn yr ysgol?

Rydym wedi ymrwymo i barhau i ddarparu llaeth i blant ysgol ar ôl Brexit.

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo cyllid i barhau i ddarparu llaeth am ddim i ysgolion hyd at 2022.  Fe barhawn i weithio gyda nhw ar drefniadau ar ôl 2022.  Nid yw Cynllun Llaeth Ysgol yr UE yn ddibynnol ar gyllid yr UE yn unig. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi rhoi cymhorthdal i'r cynllun, drwy daliadau cenedlaethol atodol, ers 2001. Rydym hefyd wedi cyflwyno arian pellach fel bod modd darparu llaeth i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen rhwng 5 a 7 oed, heb gost i'w rhieni na'u gwarcheidwaid. Mae'r cynllun penodol hwn yn unigryw i Gymru.

## Erasmus+

Argymhellwn barhau fel yr arfer â phrosiectau Erasmus+ a'r Gronfa Gydsefyll Ewropeaidd sydd dan gontract, ac y parheir hefyd i gyflwyno ceisiadau i'r Asiantaeth Genedlaethol yn y DU ar gyfer 2019 fel yr arfer. Rydym wedi cyflwyno canllawiau pellach yn ddiweddar ar ffurf hysbysiad technegol.

1.
- Mae UE yn cyfeirio at y 27 o wladwriaethau sy'n aelod o'r Undeb Ewropeaidd.
- Mae AEE EFTA yn cyfeirio at Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein
- Mae AEE yn cynnwys yr UE a 'r tair gwlad yn AEE EFTA
- Mae EFTA yn cyfeirio at Norwy, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a'r Swistir

Nôl i'r brig